



# Newyddlen Rhifyn 1 Chwefror 2015

## 2015 – Blwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu

### *Mae 2015 yn ddechrau newydd ac yn ddyddiad cau*

Mae'r UE wedi penderfynu bod 2015 yn flwyddyn arbennig ac y dylai fod yn Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu. Hon yw'r Flwyddyn Ewropeaidd gyntaf un i ddelio â gweithredu allanol yr Undeb Ewropeaidd a rôl Ewrop yn y byd. Mae'r UE yn credu bod hwn yn gyfle i ddatblygu sefydliadau i ddangos ymrwymiad Ewrop i ddileu tlodi dros y byd ac ysbrydoli mwy o Ewropeaid i ymhél ac ymwneud â datblygu. Yn 2000 cytunwyd ar Nodau Datblygu'r Mileniwm ar draws y byd a 2015 yw'r flwyddyn i asesu'r nodau hynny a gweld i ba raddau y cawson nhw eu cyflawni, yna bydd y gymuned ryngwladol yn cytuno ar fframwaith byd-eang ar gyfer y dyfodol i ddileu tlodi a sicrhau datblygiad cynaliadwy.

Rhoddodd Eurobaromedr 2013 gipolwg annisgwyl ar farn dinasyddion UE am ddatblygiad.

- Mae mwy na 80% yn credu bod cymorth i ddatblygu'n bwysig, ac mae 60% yn meddwl y dylem ni fod yn rhoi mwy o gymorth;
- Mae dwy ran o dair yn credu y dylai trechu tlodi yn y gwledydd sy'n datblygu fod yn un o brif flaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd.
- Yr un pryd, mae 50 % yn dweud nad ydyn nhw'n gwybod unrhyw beth ynglŷn â ble mae cymorth yr Undeb Ewropeaidd yn mynd.

Daw'r wybodaeth hon o wefan yr UE sy'n rhoi sylw i'r Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu - <https://europa.eu/eyd2015/> lle gallwch chi weld yr holl wybodaeth am y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu, beth yw thema pob mis a pa ddiwyddiadau sy'n digwydd i'w dynodi.

Yn 2015 mae'r UE yn ceisio gwneud ei gorau i esbonio i ddinasyddion Ewropeaidd sut mae cymorth i ddatblygu gan yr UE yn gweithio a dangos ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol. Maen nhw eisiau dangos i drethdalwyr sut mae eu harian yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl i rymuso pobl eraill o amgylch y byd sydd yn rhan o gylch tlodi, heb fod ar fai o gwbl, i ennill bywoliaeth drostynt eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Yn ystod y flwyddyn bydd yr UE yn tynnu sylw at bobl yn y gwledydd sy'n bartneriaid i ni ac yn tynnu sylw hefyd at waith yn y maes. Hefyd, mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae'r ffin rhwng gwledydd sy'n datblygu a rhai sydd wedi datblygu'n mynd yn fwyfwy amwys. Mae rhai gwledydd a oedd yn arfer bod yn wledydd sy'n datblygu wedi dod yn rhoddwyr, tra bod eraill wedi eu caethiwo mewn byd o dlodi. Yn y cyfamser, mae ffynonellau ariannol newydd a phartneriaid datblygu newydd wedi ymddangos. Mae'r tirwedd datblygu wedi gweld y berthynas draddodiadol rhwng rhoddwyr a derbynwyr yn newid i fyd o gydweithredu, cyd-gyfrifoldeb a diddordeb cyffredin. Nid mater o degwch yn unig yw helpu gwledydd sy'n datblygu dros y byd i greu cymdeithasau heddychlon a ffyniannus. Bydd hefyd yn golygu bod y byd yn fwy diogel gyda mwy o botensial economaidd a masnachol i Ewrop hefyd. Gallwch fod yn rhan o hyn!

- Gallwch gyfrannu at drafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol ar ddatblygu gan gynnig eich syniadau.

- Gallwch ymuno â sefydliad datblygu.

- Gallwch wirfoddoli i weithio ar brosiect datblygu.



# Beth mae Europe Direct wedi bod yn ei wneud

## Deuddeg diwrnod 'Nadolig yn Ewrop'

Yn ystod diwrnodau'r wythnos ym mis Rhagfyr o'r 4ydd i'r 19eg cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yn Llyfrgell Wrecsam o'r enw Nadolig yn Ewrop. Bob diwrnod yr oeddem yn dysgu am wahanol wlad yn yr UE a sut maen nhw'n dathlu'r Nadolig. Dyma'r gwledydd a ddewiswyd:

Eidal	Y Weriniaeth Tsiec
Gwlad Pwyl	Croatia
Romania	Groeg
Malta	Estonia
Sbaen	Yr Iseldiroedd
Sweden	Almaen

Roedd y digwyddiadau wedi eu hanelu at ysgolion lleol (cynradd ac uwchradd). Roedd y digwyddiadau'n cynnwys cyflwyniad yn esbonio sut oedd y wlad yn dathlu'r Nadolig, sesiwn grefftau yn gwneud addurn i'r goeden Nadolig ar gyfer y wlad dan sylw yn ogystal â blasu peth o fwyd Nadolig y wlad honno (os oedd ar gael).

Roedd y digwyddiadau am ddim ac roedden nhw'n gyfle gwych i ddysgu am wledydd eraill drwy Ewrop a sut maen nhw'n dathlu gŵyl mor arbennig. Cawsom ymateb gwych gan ysgolion lleol ac roeddem yn credu bod y digwyddiadau'n llwyddiant mawr!



*Dyma rai enghreifftiau o addurniadau a wnaed; plât gyda'r Ceiliog Horezu o Romania, cwch fel y Karavaki wedi ei addurno yn Groeg, seren bapur Bwylaidd a thorch ffelt a botymau o Malta.*

## ADBORTH

Cawsom ein croesawu'n gynnes i'r llyfrgell gan Anwen ar ôl cerdded o'r ysgol drwy dywydd gwyntog dros ben. Roedd ei chyflwyniad a oedd yn sôn am wyliau a thraddodiadau'r Nadolig yn Sbaen yn ddiddorol iawn. Dysgodd y disgyblion a'r staff lawer am fywyd yn Sbaen yn ystod yr ŵyl. Roedd yn ffordd ddymunol iawn i ddysgu am ddiwylliant Ewropeaidd gwahanol.

Muchas gracias.

Sian Sparrow (Ysgol Morgan Llwyd)

Roeddwn yn meddwl bod y gwersi'n ddiddorol, ar y lefel iawn a gyda digon o weithgareddau a oedd yn helpu i gynnal diddordeb y disgyblion a oedd yn cael trafferth canolbwytio am hir. Mwynhaodd y disgyblion y gweithdai ac yn gwersi dilynol yn yr ysgol cyfeiriodd nifer o'r disgyblion at rywbeth yr oedden nhw wedi ei ddysgu yn y gweithdai.

Ryan Hayes (St Christopher's)





## Cyflwyniadau Ysgolion

Mae ein cyflwyniadau wedi eu teilwra i ystod oedran y disgyblion



### Dylunio dinesydd UE neu ASE

Mae disgyblion yn ysgrifennu pa rinweddau y bydden nhw'n hoffi i ASE eu cael neu'r rhinweddau y dylen nhw eu cael neu maen nhw'n ysgrifennu'r hawliau sydd gennym fel dinasyddion Ewropeaidd.

### FFEITHIAU O BŴL PINIWN YR OBSERVER

Gofynnwyd i 503 o bobl ifanc rhwng 17-22 oed a oedd yn pleidleisio am y tro cyntaf

Gan feddwl am aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yn gyffredinol, ydi o'n beth da neu ddrwg?

**Roedd 62% yn credu ei fod yn beth da ar y cyfan**

Gofynnwyd i 503 o bobl ifanc rhwng 17-22 oed a oedd yn pleidleisio am y tro cyntaf

Pe bai refferendwm yn cael ei gynnal ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd gyda dewis i aros neu beidio â bod yn aelod, sut fydddech chi'n

pleidleisio? **Roedd 67% yn credu y dylem aros**

Ffynhonnell: Observer <http://bit.ly/1zOVKE3>  
27/12/14



*Cyflwyniad i blant ysgol gynradd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am Ewrop a'r UE.*

# Gweithdai Ysgolion

gan Anwen Atkinson

## Gweithdai Ysgol Uwchradd Darland

Trwy gydol blwyddyn academaidd 2014/2015, mae Europe Direct Wrexham wedi bod yn cynnal a bydd yn parhau i gynnal cyfres o weithdai ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 yn Ysgol Uwchradd Darland. Mae'r gweithdai'n cyflwyno gwybodaeth am yr Undeb Ewropeaidd, beth ydyw, beth mae'n ei wneud a sut mae'n effeithio arnom yn ein bywydau bob dydd, hefyd rydym yn ceisio cynnwys cwis hwyliog ar y diwedd i gadarnhau'r ffeithiau hyn. Mae'r gweithdai hyn yn cyd-fynd yn dda â gwersi ABCh yr ysgolion.

## Gweithdai Ysgol Uwchradd St Joseph

Unwaith eto mae Europe Direct Wrexham wedi dechrau cyfres o weithdai ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 yn Ysgol Uwchradd St Joseph. Bydd disgyblion blwyddyn 10 yn cymryd rhan mewn cyflwyniad rhyngweithiol am yr UE ac yna

mewn cwis. Bydd disgyblion Blwyddyn 11 yn cael sesiwn ategol, yn ehangu ac adeiladu ar yr wybodaeth a ddysgwyd ym mlwyddyn 10. Byddan nhw'n dysgu pa fath o hawliau sydd gennym fel Dinasyddion yr UE a gofynnir iddynt ddylunio eu dinesydd ASE neu UE eu hunain.

## Coleg Cambria

Trwy gydol blwyddyn academaidd 2014/2015 byddwn yn cynnal nifer o weithdai yng Ngholeg Cambria. Rydym yn cyflwyno gwybodaeth am hanes yr UE yn ogystal â'r ffordd y mae'n gweithio i ni a sut mae'n effeithio arnom. Yn ogystal â hyn byddwn yn teilwra gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y dosbarthiadau y byddwn yn siarad â nhw, er enghraifft byddwn yn ychwanegu



gwybodaeth am fusnes ar gyfer disgyblion Astudiaethau Busnes neu wybodaeth wleidyddol ychwanegol ar gyfer Llywodraeth i ddisgyblion Gwleidyddiaeth. (Ffeithiau'n unig a gyflwynir gennym, nid barn wleidyddol)

Trwy gydol 2015 byddwn yn ceisio ymestyn ein gweithdai i ysgolion eraill. Mae Ysgol Bryn Alyn eisoes wedi dangos diddordeb a gobeithio y bydd eraill yn defnyddio ein gwasanaethau. Rydym hefyd yn

gobeithio cydweithio ar fwy o ddiwyddiadau gyda Phrifysgol Glyndŵr yn ystod y flwyddyn nesaf i roi gwybodaeth i fyfyrwyr am opsiynau fel astudio dramor, rhaglenni cyfnewid a'r arian sydd ar gael o Ewrop.

## GEIRDA

Mae Anwen Atkinson yn rhoi cyflwyniadau rhagorol ar 'Ewrop', ac mae'r wybodaeth yn ddefnyddiol iawn i'r Fagloriaeth Gymreig.

Mel Henry (Coleg Cambria, Astudiaethau Busnes)

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwahodd Europe Direct Wreccsam i ddod i roi cyflwyniad yn eich ysgol, mae croeso i chi gysylltu â ni ar [europedirect@wrexham.gov.uk](mailto:europedirect@wrexham.gov.uk) neu ffoniwch 01978 292631.

# Cyhoeddiadau newydd yn Europe Direct Wreccsam

## Beth mae'r UE yn ei olygu i ni...

Cyfres newydd yw hon wedi ei chreu gan y Comisiwn Ewropeaidd i fanylu ynghylch yr hyn y mae'r UE yn ei olygu i wahanol grwpiau o bobl. Dyma'r teitlau yn y gyfres:



- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, siopwyr a defnyddwyr?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i gefn gwlad?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, sydd dan 25 oed?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, fusnesau bach?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, fyfyrwyr?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, sydd dros 50 oed?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, dwristiaid?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, academyddion, gwyddonwyr ac ymchwilwyr?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, deuluoedd?
- Beth mae'r UE yn ei olygu i ni, bobl greadigol?



# Y Diweddaraf am Daliadau Crwydro



Yn Ebrill y llynedd pleidleisiodd y mwyafrif llethol yn Senedd Ewrop dros gymeradwyo'r cynnig i ddileu taliadau crwydro ar neu cyn 15 Ebrill 2015.

Mae'n rhaid i'r cynnig gael ei dderbyn gan y Cyngor Ewropeaidd, lle mae ar hyn o bryd; yn wreiddiol disgwylid cytundeb terfynol erbyn diwedd 2014.

Rwy'n deall nad yw drafft gweithio diweddaraf y Cyngor yn cyfeirio o gwbl at y dyddiad a gynigiwyd gan y Senedd, a bod y Cyngor yn ceisio gohirio'r cam o ddileu crwydro o'r dyddiad cychwynnol gwreiddiol, sef 15 Rhagfyr 2015.

Nid yw'n eglur ar hyn o bryd beth fydd y drafft terfynol yn ei ddweud, er ei fod yn debygol o gael ei ddiwygio ymhellach, yn arbennig o ystyried bod Llywydd newydd gan y Cyngor. Herman Van Rompuy oedd y Llywydd rhwng 2009-2014. Y cyfnod arferol i ddal y swydd hon yw dwy flynedd a hanner ond, yn annisgwyl, cafodd Mr Rompuy ei ail-ethol am ail dymor. Cynhaliwyd pleidlais wreiddiol Senedd Ewrop yn Ebrill 2014, tra oedd yn dal yn llywydd y Cyngor Ewropeaidd, ond ar 1 Rhagfyr 2014, cymerwyd y llywyddiaeth drosodd gan Donald Tusk ac mae wedi cyflwyno agenda newydd.

Hyd y gwn i, mae'r testun diweddaraf yn awgrymu gostyngiad graddol mewn ffioedd crwydro tuag at y nod o "grwydro fel gartref" (RLAH) – lle bydd rhywun sydd, dyweder, yn defnyddio ffôn symudol Prydeinig yn yr Eidal, yn talu'r un faint â phe baen nhw'n dal ym Mhrydain.

Rydym yn aros am benderfyniad terfynol y Cyngor.



## Europe Direct Wreccsam

Llyfrgell Wreccsam,  
Ffordd Rhosddu,  
Wreccsam,  
LL11 1AU

[europedirect@wrexham.gov.uk](mailto:europedirect@wrexham.gov.uk)

01978 292631